

Gwirio gwaith Cafcass Cymru



Helô

Mae Arolygiaeth Gofal Cymru yn gwirio ac yn arolygu gwasanaethau. Rydym yn sicrhau bod gwasanaethau yn gwneud y pethau iawn yn y ffordd iawn. Gallwn gymryd camau os nad ydynt.

Ym mis Mehefin 2022 fe wnaethom edrych ar sut mae Cafcass Cymru:

- yn cadw plant a phobl ifanc yn ddiogel ac yn hyrwyddo eu llesiant
- yn sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael eu cynnwys, ac yn cael gwrandawriad mewn penderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau.

Ynglŷn â Cafcass Cymru


Mae Cafcass Cymru yn gweithio gyda phlant, pobl ifanc a theuluoedd pan fyddant yn mynd i'r llys teulu. Mae Cafcass Cymru:

- yn sicrhau bod plant a phobl ifanc yn ddiogel
- yn rhoi gwybodaeth, cyngor a chefnogaeth i deuluoedd
- yn sicrhau bod y llys yn gwrandao ar blant a phobl ifanc
- yn rhoi cyngor i'r llys teulu er mwyn iddynt allu gwneud y penderfyniadau gorau.

Mae eu gwaith yn bwysig iawn!

Mae'r llyfryn hwn yn dweud wrthyb beth y daethom o hyd iddo.

Yr hyn a wnaethom



Covid-19

Parhaodd Cafcass Cymru i gynorthwyo plant, pobl ifanc a theuluoedd drwy'r pandemig, ond bu'n rhaid iddynt newid sut yr oeddent yn gweithio. Roedd yn rhaid i lawer o'r gefnogaeth fod ar-lein.



Rhai pwyntiau da

☉ Mae Cafcass Cymru yn gweithio'n dda ac yn cefnogi plant, pobl ifanc a theuluoedd.

Maent:

- yn rhoi plant a phobl ifanc yn gyntaf
- yn helpu amddiffyn plant a phobl ifanc rhag trais, camdriniaeth ac esgeulustod
- yn sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael y bywyd mwyaf sefydlog posibl
- yn helpu i sicrhau bod penderfyniadau yn rhoi'r dyfodol gorau posibl i blant a phobl ifanc
- yn hyrwyddo iechyd, llesiant a diogelwch plant a phobl ifanc i lysoedd teulu
- yn helpu amddiffyn hawl plant a phobl ifanc i adnabod eu rhieni ac aros gyda nhw os yw'n ddiogel
- yn cael eu hymddiried gan deuluoedd.

☉ Mae Cafcass Cymru yn cynnwys plant a phobl ifanc mewn penderfyniadau ac yn gwrando ar eu safbwyntiau.

Maent:

- yn parchu plant a phobl ifanc a gwrando ar eu safbwyntiau
- yn gwneud yn siŵr bod pawb yn deall pwy yw Cafcass Cymru, beth maen nhw'n ei wneud a pham
- yn defnyddio gwahanol weithgareddau ac adnoddau i ymgysylltu â phlant a phobl ifanc
- yn helpu rhoi ystod o ffyrdd i blant a phobl ifanc ddweud wrth y llysoedd teulu beth maent ei eisiau
- yn sicrhau bod pawb yn gwrando ar yr hyn y mae plant a phobl ifanc ei eisiau
- yn egluro penderfyniadau, gan gynnwys rhai anodd.





🕒 **Mae Cafcass Cymru yn gweithio'n dda gyda llysoedd teulu.**

Maent:

- yn rhoi cyngor da i lysoedd teulu ar yr amser cywir
- yn gwneud argymhellion i'r llys ar sail tystiolaeth
- yn nodi'r opsiynau gwahanol yn glir
- yn cadw cofnodion llys o ansawdd da
- yn gwybod sut i herio penderfyniadau os ydynt yn meddwl nad dyna'r peth gorau i blentyn.

🕒 **Mae gan Cafcass Cymru arweinwyr o ansawdd da a gweithlu sefydlog a medrus.**

Maent:

- yn helpu staff newydd i ddeall eu rôl a'u cyfrifoldebau
- yn cefnogi staff i ddatblygu sgiliau newydd
- yn cael cyfarfodydd tîm rheolaidd
- yn gwrando ar staff ac yn eu cynnwys mewn gwaith cynllunio
- yn cyflogi rheolwyr ac arweinwyr medrus sydd yno i'r staff gael siarad â nhw.

🕒 **Mae Cafcass Cymru yn parhau i wella sut maent yn gweithio.**

Maent:

- yn gwrando ar farn ac adborth y bobl a ddefnyddiodd eu gwasanaeth
- yn meddwl am y dyfodol ac yn agored i ffyrdd newydd o weithio
- yn rhannu arferion da fel y gall y staff ddysgu oddi wrth ei gilydd
- yn sicrhau bod staff yn cael yr hyfforddiant sydd ei angen arnynt
- yn gwirio bod eu holl waith o'r un ansawdd uchel gyda phroses sicrhau ansawdd.

☉ Mae Cafcass Cymru yn gweithio'n dda gyda gwasanaethau awdurdodau lleol, gwasanaethau cyfreithiol a sefydliadau eraill.

Maent:

- yn gweithio'n dda gyda gweithwyr cymdeithasol a gweithwyr proffesiynol eraill fel bod teuluoedd yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt
- yn mynd i adolygiadau plant ac yn helpu i sicrhau nad oes unrhyw fylchau yn y cymorth
- yn gweithio'n dda gyda llysoedd teulu ac yn rhannu gwybodaeth yn y ffyrdd cywir
- yn cymryd rhan mewn prosiectau newydd i helpu teuluoedd i ddelio â materion fel defnyddio cyffuriau ac alcohol.

☉ Mae Cafcass Cymru yn cadw adroddiadau a gwybodaeth o ansawdd da.

Maent:

- yn cadw adroddiadau cyfredol
- yn rhoi'r wybodaeth gywir er mwyn i lysoedd teulu wneud penderfyniadau.

☉ Mae Cafcass Cymru yn sicrhau bod pobl yn cael cymorth yn Gymraeg.

Maent:

- yn gwneud cynnig rhagweithiol o gefnogaeth yn Gymraeg fel nad oes rhaid i bobl ofyn
- yn defnyddio polisi a fframwaith iaith Gymraeg
- yn gwella sgiliau Gymraeg ar draws y sefydliad.



Gwneud yn well ar gyfer y dyfodol

Rydym wedi nodi gwahanol ffyrdd y gall Cafcass Cymru wella sut maent yn gweithio.

Credwn y gallai Cafcass Cymru wella drwy:

- sicrhau bod gan deuluoedd fwy o wybodaeth am y llys teulu cyn dechrau achos
- sicrhau bod gan blant, pobl ifanc a theuluoedd fwy o wybodaeth am Cafcass Cymru a pham maent yn cymryd rhan
- rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i blant a phobl ifanc am yr hyn sy'n digwydd
- sicrhau bod plant a phobl ifanc yn gwybod pwy fydd yn dweud wrthynt am benderfyniadau
- sicrhau bod yr holl staff yn gwneud pethau yn yr un ffordd
- gwirio bod cofnodion achos yn cael eu diweddarau drwy gydol achos llys
- gwneud yn siŵr bod cofnodion achos ac adroddiadau yn cynnwys mwy o dystiolaeth am y modd y cymerodd plant a phobl ifanc ran a sut y casglwyd eu safbwyntiau
- gwneud yn siŵr bod gan adroddiadau fwy o dystiolaeth am sut roedd y staff yn gweithio gyda theuluoedd
- gweithio'n well gyda gweithwyr proffesiynol, gan gynnwys swyddogion adolygu annibynnol
- recriwtio mwy o staff sy'n siarad Cymraeg
- cynnig gwasanaethau mewn mwy o ieithoedd
- rhoi mwy o gyfleoedd i staff gael dyrchafiad
- cefnogi staff yn well pan fyddant yn teimlo o dan bwysau gwaith
- gwneud yn siŵr nad oes gan y staff ormod o deuluoedd i'w cynorthwyo ar yr un pryd.



Y camau nesaf

Rydyn ni wedi ysgrifennu llythyr at Cafcass Cymru. Mae'n egluro'r hyn y daethom o hyd iddo a'r hyn y mae'n rhaid iddynt ei wneud. Rydym wedi gofyn iddynt roi gwybod i ni sut maent yn bwriadu gwella eu gwaith.

Byddwn yn gwirio beth maent yn ei wneud ac yn eu harolygu eto yn y dyfodol.

Diolch am ddarllen hwn.

Gallwch ddarllen yr adroddiad llawn yma:

 arolygiaethgofal.cymru/llythyr-gwiriad-sicrwydd-cafcass-cymru

